Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW

Dyddiad ac Amser

4.00 y.h., DYDD MAWRTH, 24AIN TACHWEDD, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

Gwen Roberts

GwenAlawRoberts@gwynedd.llyw.cymru

01286 679499

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 16 Tachwedd 2026)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Wendy Cleaver
Eryl Jones-Williams
Louise Hughes

Aelodau Cyfetholedig:

Coun Robert Williams — Cyngor Tref Abermaw
Dr John Smith — Meirionnydd Yacht Club
Ashley Field — Three Peaks Yacht Race
Robert Aeron Williams — Barmouth Resort Improvement Group
Glenn Radford — Cymdeithas y Bad Achub

Sylwedyddion:

Cyng Matthew Harris
Ian Sadler
Cyng Brian Woolley
Peter Appleton
Desmond George
Cyng June Jones
Cyng John Brynmor Hughes

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. COFNODION 4 - 9

I gadarnhau cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2026.

4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH A MATERION GWEITHREDOL 10 - 21

I ystyried adroddiadau gan yr Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwrfeistr.

5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 6 Ebrill 2027.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW, 24 MAWRTH 2026

Presenoldeb:

Aelodau:
Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-Gadeirydd), Cynghorydd Deana Davies-Fisher (Cyngor Tref Abermaw), Glenn Radford (Cymdeithas y Bad Achub)

Swyddogion:
Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Daniel A Cartwright (Uwch Swyddog Harbyrau), Kane Arran Triggs (Harbwrfeistr Abermaw), Manon Jones a Lowri Evans (Cyfieithwyr), Gwen Roberts a Courtney Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Hefyd yn Bresennol: Cynghorydd June Jones (Sylwedydd, Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog), Cynghorydd R Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Robert Williams (Cyngor Tref Abermaw), y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Sylwedydd, Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Pwllheli), a'r Cynghorydd Louise Hughes.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025, fel rhai cywir.

4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau a Harbwrfeistr Abermaw.

<u>Data Perfformiad</u>

Tynnwyd sylw at y tabl a gynhwysir yn yr adroddiad, gan nodi bod y nifer y cytundebau angori wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Gobeithiwyd y bydd y nifer yn parhau i gynyddu dros y flwyddyn i ddod, ac adnabuwyd hefyd bod nifer o ymholiadau wedi dod i law ynglŷn ag angorfeydd cwsmeriaid newydd yn Harbwr Abermaw.

Atgoffwyd y pwyllgor o'r gwasanaeth ar-lein ar gyfer ceisiadau angori a chofrestru cychod pŵer, a fydd yn ail-agor ar y 1af o Ebrill. Anogwyd unrhyw un sydd â diddordeb mewn angori cwch yn yr Harbwr ddod i gyswllt â swyddfa'r harbwr, er mwyn darparu manylion eu cwch a chychwyn y broses ymgeisio.
Cyfeiriwyd at y data boddhad cwsmeriaid a defnyddwyr yr Harbwr, a thynnwyd sylw at y codau QR sydd wedi'u lleoli o amgylch yr Harbwr, er mwyn galluogi cwsmeriaid ac ymwelwyr i gyflwyno adborth am eu profiad. Ymfalchïwyd yn y ffaith bod 68% o'r adborth a dderbyniwyd gan gwsmeriaid yn rhagorol, a chyfeiriwyd at y sylwadau cadarnhaol gan gwsmeriaid a amlinellir yn yr adroddiad. Yn sgil yr adborth calonogol hwn, diolchwyd i holl staff yr Harbwr am eu hymroddiad a'u gwaith ardderchog drwy gydol y flwyddyn.

Diogelwch yr Harbwr

Eglurwyd bod Cyngor Gwynedd wedi penodi Person Dynodedig newydd, sy'n darparu trosolwg annibynnol o gydymffurfiaeth yr Harbwr â Chod Diogelwch Morol Porthladdoedd. Tynnwyd sylw at yr addasiadau i'r Cod a wnaethpwyd dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys y newid i enw'r Cod. Nodwyd hefyd fod y Person Dynodedig wedi cynnal archwiliad o systemau'r Harbwr, a bod canlyniad yr archwiliad yn gadarnhaol iawn. Ychwanegwyd bod yr adroddiad hwn wrthi'n cael ei gyhoeddi.

Wrth drafod polisi towio newydd Cymdeithas y Bad Achub, nodwyd nad oes gan yr Awdurdod Lleol bolisi towio ar hyn o bryd, a holwyd os bydd bwriad i ddatblygu polisi o'r fath. Mewn ymateb, atgoffwyd y pwyllgor mai prif ddiben cychod gwaith yw cyflawni swyddogaethau gweithredol y Cyngor ac nad yw'r cychod hynny wedi eu darparu at ddibenion towio cychod mewn trafferthion. Cyfeiriwyd hefyd at ddyletswyddau statudol y Cyngor, gan nodi nad oes gofyniad na disgwyliad ar yr Awdurdod i ddarparu gwasanaeth towio.

Stormydd y Gaeaf

Aethpwyd ymlaen i nodi bod nifer o stormydd wedi effeithio Abermaw eleni, gyda'r gwyntoedd yn bennaf yn dod o gyfeiriad y De-ddwyrain. Esboniwyd bod yr amodau wedi bod yn heriol, gan gyfeirio at sawl digwyddiad yn ymwneud â chychod lle bu'n rhaid i staff ymateb yn gyflym i sicrhau diogelwch. Ymhelaethwyd ar un digwyddiad penodol lle torrodd cwch yn rhydd o'i angor ac y credir iddo wneud cyswllt â'r bont rheilffordd cyn cael ei ddarganfod yn ardal Harbwr Aberamffra. Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r gymuned leol am ei hymateb prydlon wrth gynorthwyo â'r digwyddiad hwn.

Holwyd ymhellach am gyfeiriad y gwyntoedd sy'n effeithio'r Harbwr ac a oes unrhyw newid ym mhatrwm stormydd yn ddiweddar. Nodwyd bod stormydd o'r fath yn digwydd yn amlach nac yn y gorffennol, gan olygu bod angen i staff fod yn fwy gwyliadwrus ac ymatebol. Tynnwyd sylw hefyd at y costau ychwanegol sy'n deillio o amlder cynyddol y stormydd, gan gynnwys gwaith atgyweirio, ymateb i ddifrod, a'r defnydd sylweddol o amser ac adnoddau staff.

Ychwanegwyd bod staff yr Harbwr hefyd wedi chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo a chefnogi adrannau eraill o fewn y Cyngor yn ystod y cyfnodau o dywydd garw, gan gynnwys cludo staff gofal i gartrefi henoed. Ategwyd y diolch i staff yr Harbwr am eu hymroddiad a'u gwaith caled drwy gydol y cyfnodau heriol hyn.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y bwi tramwyo 'oddi ar ei safle' ar hyn o bryd, ac anogwyd unrhyw longwyr i gysylltu â swyddfa'r Harbwr ymlaen llaw cyn mordwyo yn yr ardal er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

Adnoddau a Chyllideb

Eglurwyd bod tabl sy'n crynhoi cyllidebau'r Harbwr wedi'i gynnwys yn y ddogfen er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Nodwyd bod y ffioedd ar gyfer cyfnod 2026/27 wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, a bod y cynnydd hwn i'w weld yn y tabl.

Tynnwyd sylw at rai o'r ffioedd a fyddai o ddiddordeb penodol i'r pwyllgor, gan gynnwys y ffi gofrestru flynyddol, sydd wedi cynyddu o £75 i £80 eleni. Nodwyd hefyd bod y ffioedd lansio blynyddol a dyddiol wedi cynyddu.

Esboniwyd bod Harbwr Abermaw wedi bod yn gweithio tuag at sicrhau bod ffioedd yn gyson a'r ffioedd a godir mewn harbyrau eraill ar draws y sir.

Manylwyd ar gyllideb yr Harbwr gan nodi gorwariant yn y maes staffio, a hynny o bosib o ganlyniad i golli un aelod o staff ac yr angen i gyflogi aelod newydd o staff.. Nodwyd hefyd danwariant mewn perthynas ag adeiladau yn ystod y flwyddyn.

Adroddwyd ar orwariant yn y meysydd trafnidiaeth, cyflenwadau a gwasanaethau, yn bennaf o ganlyniad i orfod adnewyddu ac atgyweirio yn dilyn difrod a gwaith cynnal a chadw. Er hynny, amlygwyd bod incwm yr harbwr wedi cynnydd tua £3,000 am y flwyddyn, gan olygu bod y gorwariant net terfynol yn £5,974.

Cyfeiriwyd at y gorwariant hwn gan nodi bod cyfran helaeth ohono'n deillio o'r difrod a wnaethpwyd o ganlyniad i'r tywydd garw a'r stormydd diweddar. Mynegwyd pryder y gallai costau yn y dyfodol pe byddai digwyddiadau tywydd eithafol yn parhau i effeithio ar yr Harbwr.

Trafodwyd yr heriau y mae'r tywydd a'r hinsawdd yn eu cyflwyno o safbwynt cynllunio ymlaen llaw, a nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn darparu pecynnau cymorth yn dilyn rhai digwyddiadau sylweddol. Cyfeiriwyd hefyd at y gronfa wrth gefn sydd gan y Cyngor, a ddefnyddir i ymateb i achosion o ddifrod sylweddol.

Cydnabuwyd yr heriau ariannol sy'n wynebu'r gwasanaeth, ond canmolwyd Harbwr Abermaw am gadw'r gorwariant i lefel gymharol isel yn ystod blwyddyn heriol. Nodwyd hefyd y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â gweithrediadau'r harbwr, yn enwedig o ystyried y difrod a'r amodau anodd mae'r harbwr wedi ei wynebu eleni. Pwysleisiwyd gwerth hyfforddiant ac arbenigedd staff yr Harbwr, sy'n galluogi llawer o waith i gael ei gyflawni'n fewnol gan leihau'r angen i gomisiynu contractwyr allanol ac o ganlyniad arbed costau.

Materion Allweddol Eraill

Nodwyd er siom o weld yr Harbwrfeistr Cynorthwyol yn gadael y gwasanaeth er mwyn datblygu a chael profiadau newydd, fod penodiad wedi ei wneud i'r swydd.

Adroddwyd bod y Bwi Tramwyo ar hyn o bryd "Oddi ar ei safle", oherwydd difrod sylweddol a wnaethpwyd iddo yn ystod storm ddifrifol dros y gaeaf. Er bod y gwasanaeth yn wynebu costau sylweddol i sicrhau Bwi newydd, cadarnhawyd bod bwi sbâr ar gael yn yr Harbwr, gyda'r bwriad o'i leoli cyn gynted â phosib..

Rhoddwyd diweddariad ar y gwaith yng ngerddi Draphont, gan nodi bod y prosiect yn mynd yn dda ac y rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2026.
Nodwyd hefyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng Adran PP/YGC a'r aelod lleol dros Abermaw er mwyn darparu diweddariadau parhaus ar gynnydd y gwaith â'r datblygiadau diweddaraf.

Croesawyd yr Harbwrfeistr i'r cyfarfod er mwyn rhoi diweddariad ar faterion gweithredol yr Harbwr.

Adrodd ar Faterion Gweithredol

Canmolwyd gwaith y tîm wrth ddygymod â gaeaf heriol

Tynnwyd sylw at y ffaith bod 5 Hysbysiad i Forwyr mewn grym ynglŷn â dynesu at Harbwr Abermaw. Cynghorwyd morwyr i gysylltu â swyddfa'r Harbwr er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw fwiau sydd allan o'u safleoedd neu unrhyw faterion mordwyo eraill. Esboniwyd bod y manylion llawn ar gyfer yr hysbysiadau hyn i'w gweld ar wefan y Cyngor. Atgoffwyd morwyr hefyd i fonitro radio VHF ar Sianel 12 wrth iddynt ymweld â'r Harbwr fel bod posib cysylltu â swyddfa'r Harbwr.
Rhoddwyd diweddariad ar effaith tywod yn chwythu i mewn i'r Harbwr a'r heriau y mae hyn yn eu hachosi. Manylwyd ar y gwaith o adnewyddu pontŵn yr Harbwr gan adrodd ei fod yn mynd rhagddo'n dda, a mynegwyd gobaith y byddai'n cael ei ailosod ym mis Ebrill/Mai 2026. Diolchwyd i Gyngor Tref Abermaw am eu cymorth parhaus i'r prosiect.

Wrth drafod materion cynnal a chadw, nodwyd bod cwch patrôl yr Harbwr, GP3, wedi cwblhau archwiliad a gwasanaeth llawn ac wedi dychwelyd i wasanaeth ar y dŵr.

Adroddwyd hefyd fod y gwasanaeth wedi buddsoddi mewn cerbyd 4x4 newydd er mwyn cynorthwyo holl staff i gyflawni eu dyletswyddau ar draws ardaloedd yr

harbwr a'r traethau. Croesawyd y buddsoddiad hwn gan nodi ei fod eisoes wedi profi'n ased gwerthfawr i'r gwasanaeth ac yn gymorth sylweddol i'r staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Adroddwyd bod aelodau ychwanegol o staff wedi cwblhau hyfforddiant angenrheidiol yn ymwneud â'r cerbyd 'All-Terrain' newydd Aethpwyd ymlaen i amlygu'r defnydd cyson a gwerthfawr a wneir o'r cerbyd wrth gefnogi gweithrediadau'r Harbwr a'r traethau.

Wrth drafod y rhestr o ddigwyddiadau sy'n cymryd lle yn Abermaw eleni, ymfalchïwyd bod cymaint yn mynd ymlaen yn yr ardal. Estynnwyd dymuniadau gorau i drefnwyr yr holl ddigwyddiadau gyda'r gobaith y byddant yn elwa ar dywydd ffafriol a chefnogaeth gref gan y gymuned ac ymwelwyr.
Manylwyd ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer delio a chyrff anifeiliaid sy'n golchi i fyny ar yr arfordir, gan gadarnhau bod y gwasanaeth yn cysylltu â'r '*British Divers Marine Life Rescue'* pan fo carcas yn cael ei ddarganfod. Os na fydd y sefydliad yn dymuno adfer y carcas, trefnir ei gladdu ar y traethau pan fod hynny'n briodol.

.

Eglurwyd bod lleoliad Abermaw ac Aberdyfi o fewn dalgylch amaethyddol helaeth yn golygu bod nifer gymharol uchel o gyrff yn cael eu darganfod ar y traethau ac yn yr harbyrau. Nodwyd bod symud a gwaredu'r cyrff hyn yn un o'r costau gweithredol mwyaf sy'n wynebu'r harbyrau, gyda'r gost yn cael ei hariannu o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth.

Ymhelaethwyd ymhellach drwy nodi bod rhai o'r carcasai yn sylweddol o ran maint a phwysau, gan olygu bod angen defnyddio peiriannau ac offer arbenigol ar adegau i'w symud a'u gwaredu'n ddiogel. Pwysleisiwyd bod y gwaith hwn yn gallu bod yn heriol ac yn gostus, ond ei fod yn rhan hanfodol o gynnal diogelwch a glendid yr harbyrau a'r traethau.

Datganwyd bod y trefniadau ar gyfer cynnal digwyddiadau wedi newid yn ddiweddar, gyda gofyniad bellach i'r Cyngor gael ei hysbysu o unrhyw ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal. Crybwyllwyd yr angen i drefnwyr unrhyw ddigwyddiad gysylltu gyda'r gwasanaeth yn y lle cyntaf, ac yna bydd ffurflen gais pwrpasol yn cael eu hanfon atynt er mwyn derbyn manylion llawn y digwyddiad arfaethedig. . Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod y ffurflen yn cael ei chwblhau'n gynhwysfawr. Nodwyd bod darparu gwybodaeth gyflawn ac amserol yn helpu i sicrhau bod yr holl ofynion gweithredol, diogelwch a rheoleiddiol yn cael eu hystyried yn briodol cyn penderfynu rhoi caniatâd i'r digwyddiad.

PENDERFYNWYD

Nodi a derbyn yr adroddiadau.

5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion i'w ystyried.

Adroddwyd nad oedd unrhyw ddiweddariadau am y cais i werthu cynnyrch o gei Harbwr Abermaw a drafodwyd yng nghyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn, a bod y gwasanaeth yn disgwyl am ymateb gan yr ymgeisydd.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar y 24ain o Dachwedd, 2026.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00yh a daeth i ben am 3:00yh

_____

(Cadeirydd)

Cyfarfod	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
Dyddiad:	24 Tachwedd 2026 16:00-18:00
Awdur:	Uwch Swyddog Harbwr
Gwasanaeth:	Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned
Teitl:	Diweddariad ar Faterion Rheoli Gwasanaeth

1. CEFNDIR

1.1. Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelwch a datblygu'r harbwr a derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion rheoli sy'n gysylltiedig â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth. Mae'r data isod yn cael ei gasglu fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol.

Cytundebau Angori

Yr Harbwr	2024/25	2025/26	2026/27
Porthmadog	109	106	112
Abermaw	78	81	86
Aberdyfi	79	83	86
CYFANSWM	266	270	284

2.2 Fel y gwelir, mae ffigyrau tymor 2026/27 yn dangos cynnydd yn nifer y rhai sy'n dal angorfeydd ym mhob harbwr. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae nifer y cwsmeriaid wedi amrywio rhwng harbyrau, yn rhannol o ganlyniad i berchnogion cychod yn adleoli eu cychod o fewn Gwynedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd cyfartalog cyffredinol o tua 4% yn awgrymu cynnydd ehangach yn y galw am angorfeydd ar draws harbyrau Gwynedd. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o adlewyrchu cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cyfnodau hir o dywydd ffafriol, ystod ac ansawdd y gwasanaethau a'r

cyfleusterau sydd ar gael yn harbyrau Gwynedd, ffioedd angori cystadleuol, a chynnydd cyffredinol yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal.

2.3 Gostyngodd nifer y cofrestriadau cerbydau dŵr personol *(jet-skis)* a chychod pŵer 147 yn ystod tymor 2025/26, o 2,509 yn y tymor blaenorol i 2,362. Mae ffigwr eleni o 2,361 yn dangos bod y niferoedd a gofrestrodd at ei gilydd wedi aros yn gyson â'r tymor blaenorol. Dylid nodi unwaith eto nad yw'r incwm a gynhyrchir o gofrestriadau cychod wedi'i gynnwys yng nghyllideb yr Harbwr a ragwelir isod.

2.4 Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod cyfraniad parhaus staff yr harbwr, sy'n darparu gwasanaeth proffesiynol a chroesawgar i gwsmeriaid newydd a chwsmeriaid phresennol. Mae staff wrth law i gynnig cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud â'r harbwr. Mae eu gwybodaeth, eu profiad a'u dealltwriaeth leol o amgylchedd yr harbwr yn amhrisiadwy, yn enwedig wrth ymateb i sefyllfaoedd annisgwyl neu gynorthwyo cwsmeriaid a defnyddwyr yr harbwr.

2.5 Mae staff yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol yn rheolaidd, gan ddarparu cymorth pan fo amgylchiadau yn gofyn am hynny, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae eu hymrwymiad parhaus a'u hagwedd broffesiynol yn cyfrannu'n sylweddol at weithrediad diogel ac effeithiol yr harbwr ac at brofiad cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio ac yn ymweld â'r ardal.

2.6 Gall yr harbyrau a'r arfordir fod yn amgylchedd heriol i'r rhai sy'n eu defnyddio, ac felly gall profiad a gwybodaeth leol staff yr harbwr fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ac arweiniad i ddefnyddwyr yr harbwr a'r traethau.

2.7 Mae adborth gan gwsmeriaid, ymwelwyr a defnyddwyr yr harbyrau yn cael ei annog yn rheolaidd drwy'r arwyddion arolwg adborth cod QR sydd wedi'u lleoli ar draws yr harbyrau a'r traethau. Croesewir adborth cadarnhaol a negyddol, gan ei fod yn darparu gwybodaeth werthfawr i'n helpu i adnabod meysydd i'w gwella a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn parhau i fodloni anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n defnyddwyr.

2.7.a Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o ganlyniadau boddhad cwsmeriaid ar draws holl harbyrau Cyngor Gwynedd:

	2024/25	**2025/26**	**2026/27**
Rhagorol	60%	68%	52%
Da iawn	24%	24%	18%

Boddhaol	16%	4%	18%
Gwael	0%	2%	12%
Gwael Iawn	0%	0%	0%
Anhysbys	0%	2%	0%

3 Mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos bod 70% o'r ymatebwyr wedi graddio eu profiad fel naill ai'n Rhagorol neu'n Dda Iawn. Mae hyn yn cymharu ag 84% a adroddwyd i'r Pwyllgor ym mis Mawrth. Fodd bynnag, dylid nodi bod y canlyniadau diweddaraf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi yn unig ac felly yn cynrychioli ciplun o'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Gall y ffigwr boddhad cyffredinol newid wrth i ymatebion pellach gael eu derbyn cyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2027.

Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd gan gwsmeriaid ac ymwelwyr â'r harbwr:

"Glân a digonedd o seddi"

"Golygfeydd a thraeth gwych ond mae'r prisiau am fwyd yn ormodol. Os ydych chi'n teithio gyda phlant, mae angen i chi ailforgeisio'r tŷ. Roedd y llety yn braf ond hefyd yn ddrytach na Llundain."

"Mae angen gwella'r ystolion ac mae'n anodd dod oddi ar y cychod."

"Argymhellir yn gryf"

"Mwy o grancod"

"Gofynnir i chi sganio cod QR ond mae'r signal mor ddrwg, byddai'n ddefnyddiol cael Wi-Fi yn Abermaw. Ond mae'r staff wastad yn barod i helpu"

"Rydyn ni'n dod am y Fferi a'r hen drên. Mae'r cerdyn a'r wybodaeth y tu ôl i'r adeilad ac felly braidd yn anodd dod o hyd iddynt. Byddai map ar gyfer lleoliadau yn ddefnyddiol."

"Gwaith gwych o amgylch yr harbwr"

4 Diogelwch yr Harbwr

Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn nodi'r safon genedlaethol ar gyfer diogelwch morol porthladdoedd. Trwy gydol yr hyn sydd wedi bod yn dymor arbennig o brysur, mae staff wedi parhau i fonitro ac archwilio seilwaith yr harbwr a

chynllunio gwaith cynnal a chadw a gwella i'r dyfodol. Mae llawer o'r gwaith cynnal a chadw gweithredol wedi'i raglennu ar gyfer misoedd y gaeaf, pan fydd gweithgarwch a nifer yr ymwelwyr yn yr harbyrau yn gyffredinol is. Mae'r dull hwn o arolygu, cynnal a chadw a gwella sydd wedi'i gynllunio yn cefnogi gweithrediad a datblygiad diogel parhaus ein harbyrau a chydymffurfiaeth barhaus â'r PMSC.

Mae'r gaeaf hefyd yn rhoi cyfle i staff ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Mae cynnal sgiliau a chymwyseddau priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni'r ystod eang o ddyletswyddau sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth. O ystyried natur amrywiol eu rolau a'u cyfrifoldebau, mae cyfleoedd hyfforddi perthnasol bob amser yn cael eu hystyried. Gall y rhain amrywio o TG a thechnolegau datblygol, gan gynnwys defnyddio AI, i ymwybyddiaeth o newid hinsawdd, adnabod rhywogaethau a thrin cychod. Mae'r cwmpas eang o waith a wneir gan y Gwasanaeth Morwrol yn rhoi cyfleoedd i staff barhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy gydol eu gyrfaoedd.

Mae tymor 2026 wedi bod yn eithriadol o brysur i'r Gwasanaeth Morwrol, gyda gweithgarwch sylweddol ar hyd yr arfordir. Yn ystod y tymor, mae staff Harbwr Abermaw wedi ymateb i amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys cychod wedi suddo, methiannau injan a phobl yn cael anawsterau ar y dŵr, yn ogystal â chynorthwyo Gwylwyr y Glannau EF pan ofynnir am hynny.

Bydd digwyddiadau sy'n ymwneud â chychod yn sicr o godi o bryd i'w gilydd, a hoffai'r Awdurdod Harbwr fanteisio ar y cyfle hwn i atgoffa perchnogion cychod o bwysigrwydd sicrhau bod eu cychod a'u cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac yn addas ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Ar rai achlysuron, mae cychod wedi profi anawsterau mecanyddol y gellid bod wedi eu hadnabod trwy gynnal a chadw priodol, gwiriadau cyn gadael a threialon ar y môr cyn teithio.

Er bod yr Awdurdod Harbwr yn parhau i flaenoriaethu diogelwch o fewn terfynau'r harbwr ac yn darparu cyngor a chymorth i forwyr lle bo hynny'n briodol, perchennog y cwch sy'n gyfrifol am gyflwr, cynnal a chadw ac addasrwydd cychod unigol a'u hoffer diogelwch cysylltiedig.

Gall damweiniau a digwyddiadau godi mewn amrywiaeth o amodau tywydd a chyflwr y môr. Dymunwn deithiau diogel a phleserus i holl ddefnyddwyr yr harbwr a'r arfordir ac rydym yn annog perchnogion cychod i archwilio a chynnal a chadw eu cychod a'u hoffer diogelwch cysylltiedig yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'w diben.

Fel rhan o God Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC), cedwir cofnodion o ddigwyddiadau a damweiniau difrifol. Mae'r cofnodion hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer dysgu a hyfforddiant staff a gallant hefyd gefnogi gofynion adrodd am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r MCA, Gwylwyr y Glannau EF, y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol (MAIB), Tŷ'r Drindod (Trinity House) a Swyddfa Hydrograffig y DU (UKHO), yn ogystal ag adrodd am lygredd (POLREP), lle bo hynny'n briodol.

Mae'n gadarnhaol adrodd nad oedd unrhyw ddigwyddiad yn ystod y cyfnod yn gofyn am gynnwys y MAIB ac nad oedd unrhyw lygredd sylweddol wedi'i adrodd o ganlyniad i ddamwain cwch. Serch hynny, cesglir gwybodaeth berthnasol yn dilyn digwyddiadau a'i rannu gyda'r MCA fel y bo'n briodol. Mae diweddariadau yn parhau i gael eu darparu wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael a hyd nes bod y digwyddiad wedi'i ddatrys yn foddhaol.

Fel yr adroddwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor, mae Tŷ'r Drindod, fel yr Awdurdod Goleudy Cyffredinol, yn archwilio ac yn arolygu ein cofnodion a'n systemau sy'n ymwneud â chynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo yn ein harbyrau ac ar hyd yr arfordir yn rheolaidd. Fel Awdurdod Harbwr Statudol (SHA), mae'r Cyngor hefyd yn cyflawni rôl Awdurdod Goleudy Lleol (LLA) o fewn ei feysydd cyfrifoldeb perthnasol. Felly, mae'r Gwasanaeth yn cynnal ac yn monitro ei Gymhorthion Mordwyo i gefnogi taith ddiogel morwyr sy'n defnyddio ein harbyrau.

Cynhaliwyd yr archwiliad diweddaraf gan Dŷ'r Drindod yn fuan ym mis Hydref. Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, nid oedd y canfyddiadau ffurfiol wedi'u derbyn. Yn ystod yr ymweliad, trafodwyd symudiad bwiau mewn ymateb i newidiadau yn safle'r banciau tywod trwy gydol y flwyddyn. Roedd cofnodion priodol wedi'u cadw a Rhybuddion i Forwyr wedi'u cyhoeddi a'u diweddaru yn unol â hynny. Ar adeg yr ymweliad, nid oedd unrhyw faterion pendant yn ymwneud â Chymhorthion Mordwyo yn ardal Abermaw.

Rydym yn parhau i groesawu gwybodaeth ac adborth gan forwyr, defnyddwyr harbwr, ymwelwyr ac awdurdodau perthnasol ynghylch unrhyw berygl mordwyo, newid yn amodau'r sianel neu symudiad bwiau a allai fod angen archwiliad neu weithrediad.

5. Adnoddau a Chyllideb

Mae crynodeb a ragwelir o'r gyllideb ar gyfer Harbwr Abermaw wedi'i gynnwys isod.

BARMOUTH HARBOUR	Financial Performance for the Period 1 April 2026 to 31 March 2027 - Augustr 2026 Review		
	BUDGET / TARGETS FOR THE PERIOD 1/4/26 TO 31/3/27	INCOME & EXPENDITURE FORECASTED 1/4/26TO 31/3/27	OVER (UNDER)
Employees	79,180	81,932	2,752
Buildings	20,360	12,323	(8,037)
Transport	840	2,067	1,227
Supplies & Services	12,350	22,221	9,871
One - Off Expenditure - Financed from Reserves	0	0	0
Total Expenditure	**112,730**	**118,543**	**5,813**
Income	(48,700)	(50,105)	(1,405)
Contribution from Reserves Towards One Off Costs	0	0	0
Total Net	**64,030**	**68,438**	**4,408**

6. Materion Allweddol Eraill

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, gellir adrodd hefyd fel a ganlyn:

- Trwy gydol tymor yr haf, roedd swyddogion yr harbwr yn cefnogi Tîm y Traeth yn rheolaidd i ymateb i ystod eang o faterion sy'n gysylltiedig â'r traeth a digwyddiadau brys ar Draeth Abermaw**.** Arweiniodd y cyfnod hir o dywydd ffafriol at lefelau arbennig o uchel o ddefnydd cyhoeddus, gan roi mwy o ofynion ar staff rheng flaen. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'r staff yn ymateb i nifer o adroddiadau o blant ar goll, yn darparu cymorth cyntaf ar sawl achlysur ac yn delio gyda nifer o ddigwyddiadau mwy difrifol.

- Bu i staff yr Harbwr a Thîm y Traeth ymateb yn broffesiynol, yn ddiwyd ac yn gyflym i ddigwyddiadau ac i geisiadau am gymorth. Yn bwysig, aeth staff ati i gynnal presenoldeb rhagweithiol, gan adnabod peryglon posibl a chynghori defnyddwyr y traeth lle bo angen i helpu i atal unrhyw broblem. Parhawyd i weithio'n agos â sefydliadau partner a'r gwasanaethau brys, gan gynnwys tîm lleol Gwylwyr y Glannau, RNLI a'r Heddlu. Hoffai'r Gwasanaeth ddiolch i'r holl staff a sefydliadau partner am eu proffesiynoldeb, eu hymrwymiad a'u hymdrechion parhaus i gadw Traeth Abermaw, yr harbwr a'r arfordir cyfagos yn ddiogel.

- Mae ymweliadau rheolaidd gan y Llu Ffiniau â Swyddfeydd yr Harbwr drwy gydol y flwyddyn yn helpu i gynnal cyfathrebu effeithiol rhwng staff yr harbwr a'r awdurdod,

gan alluogi rhannu gwybodaeth a datblygiadau perthnasol ar hyd yr arfordir pan fo hynny'n briodol. Yn fwy diweddar, gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Llu Ffiniau i fynychu cyfarfod y Gwasanaeth Morwrol i roi cyflwyniad i staff ar faterion i fod yn ymwybodol ohonynt ac amgylchiadau lle dylid adrodd gwybodaeth i'r Llu Ffiniau. Roedd y cyflwyniad hefyd yn cynnwys 'Project Kraken', cynllun ymwybyddiaeth gyhoeddus sy'n ymwneud ag adrodd am weithgareddau amheus o amgylch arfordir y DU. Mae gwybodaeth am Broject Kraken yn cael ei harddangos yn ein harbyrau, ac mae'r cyflwyniad yn rhoi rhagor o wybodaeth i staff i gefnogi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r cynllun.

6.2 Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Morwrol wedi cyflwyno ceisiadau am gyllid drwy Gronfa Pysgodfeydd Cymru a'r Gronfa Twf Lleol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn disgwyl am ganlyniad y ddau gais. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y cyllid yn cefnogi datblygiad parhaus ein harbyrau, gan gynnwys gwelliannau mewn cyfleusterau i gwsmeriaid ac ymwelwyr.

5.3 Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â'r defnydd o *MV Dwyfor*, sef cwch gwaith y Gwasanaeth Morwrol. Oherwydd gofynion cynnal a chadw a chodio parhaus, gofynnodd y Gwasanaeth i'r YDSA atal ardystiad y cwch wrth i'r materion hyn gael eu hystyried.

7. ARGYMHELLION

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

Cyfarfod	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
Dyddiad:	24 Tachwedd 2026
Awdur:	Yr Harbwrfeistr Kane Triggs
Gwasanaeth:	Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned
Teitl:	Diweddariad ar Faterion Gweithredol

1. Cefndir

1.1. Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. Adrodd ar faterion gweithredol

2.1. Cyflwynir y crynodeb isod o safbwynt perfformiad y Gwasanaeth.

3. Materion Mordwyo

3.1. Mae diogelwch mordwyo i Harbwr Abermaw yn parhau i gael ei reoli'n dda. Mae Un Rhybudd i Forwyr yn parhau i fod yn ei le mewn perthynas â Marc Ochr Chwith Rhif 4. Mae'r bwi wedi'i ddadgomisiynu gan nad oes ei angen mwyach ar ôl newid yng nghyfeiriad y sianel fordwyadwy. Mae Tŷ'r Drindod wedi cael gwybod ac wedi cadarnhau'r newid.

3.2. Ar ôl cyfnod sylweddol heb fwi y sianel fordwyo, rydym yn falch o ddweud bod y bwi bellach yn ôl yn ei safle siartedig o **52°42.796N 004°04.906W**, gyda stansiwn, marc top a llusern newydd.

3.3. Cynghorir morwyr yn gryf i gysylltu â Swyddfa'r Harbwr a chyfeirio at y Rhybudd Lleol diweddaraf i Forwyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fordwyo wrth fynd i mewn a gweithredu o fewn Harbwr Abermaw.

3.4. Mae'r safleoedd siartedig diweddaraf a'r Rhybuddion Lleol i Forwyr hefyd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

3.5. Mae morwyr hefyd yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cadw eu radios VHF wedi'u tiwnio i Sianel 12 tra byddant o fewn Harbyrau Gwynedd. Gofynnir i berchnogion cychod roi manylion cyswllt priodol i Swyddfa'r Harbwr cyn cyrraedd er mwyn sicrhau bod dull cyfathrebu dibynadwy ar gael os oes angen.

4 Materion penodol

4.1 Mae morwyr yn parhau i brofi effaith crynhoad tywod yn y sianel agosaf at wal yr harbwr, a all achosi anawsterau i gychod sy'n gadael ac yn dychwelyd i'r harbwr ar lanw isel. Cynghorir pob cwch i gysylltu â Swyddfa'r Harbwr cyn mynd at wal yr harbwr i sicrhau bod digon o ddyfnder dŵr ar gael.



4.2. Mae'r gwaith i adnewyddu pontŵn yr harbwr yn mynd rhagddo'n dda. Hoffem ddiolch i'r Cyngor Tref am eu cefnogaeth barhaus gyda'r prosiect hwn.

4.3. Mae cwch 'Powercat' yr Harbwr wedi cael ei ddefnyddio'n dda drwy gydol y tymor, ar ôl cael gwasanaeth llawn ar ddechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau llanw a chrynhoad tywod yn yr harbwr yn effeithio ar ei weithrediad, a all gyfyngu ar ei oriau gweithredu a'r ardaloedd lle gall weithredu'n ddiogel.

4.4. Mae'r cerbyd Morwrol 4x4 newydd wedi cael ei ddefnyddio'n dda trwy gydol y tymor ac mae wedi bod yn ychwanegiad defnyddiol at fflyd y Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae rhai anawsterau wedi codi wrth weithredu ar dywod meddal, sydd wedi tynnu sylw at gyfyngiadau mewn rhai amodau ar y traeth.

4.5. Gwelwyd unwaith eto bod y cerbyd morwrol sy'n addas ar gyfer pob math o dir yn gaffaeliad gwerthfawr i'r Gwasanaeth. Yn fwyaf diweddar, fe'i defnyddiwyd i gynorthwyo gyda'r gwaith o adfer cwch a oedd wedi mynd yn sownd ger Ynys y Brawd. Mae'r holl drelars a'r bowser golchi jet a ddefnyddir gan staff yr harbwr hefyd wedi cael gwasanaeth gan yr Adran Fflyd i sicrhau eu bod yn parhau mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w defnyddio.

4.7. Mae staff yr Harbwr wedi chwarae rhan bwysig drwy gydol y flwyddyn wrth ymateb i adroddiadau o gychod mewn perygl a darparu cymorth ymarferol lle bo angen. Mae hyn wedi cynnwys helpu i ddiogelu cychod sydd mewn perygl o suddo, ymateb i gychod sy'n cael anawsterau ar eu hangorfeydd a rhoi sylw i faterion fel mynd yn sownd efo cadwyni angori. Mae'r digwyddiadau hyn yn dangos gwerth cael staff harbwr profiadol, offer priodol a'r gallu i ymateb yn brydlon pan fydd problemau'n codi yn yr Harbwr. Er mwyn dal ati i weithredu fel

hyn trwy gydol cyfnod y gaeaf, mae disgwyl i'n dau bwmp achub gael gwasanaeth yn yr wythnosau nesaf.

4.8. Yn ystod tywydd stormus ym mis Hydref, daeth cwch modur mawr yn rhydd o'i angorfa a tharo'r gwaelod i'r gorllewin o Ynys y Brawd. Ymatebodd staff yr Harbwr yn brydlon i'r digwyddiad gan barhau i weithio y tu hwnt i oriau gwaith arferol, a helpu i leihau'r risg o ddifrod neu lygredd pellach. Gan weithio'n agos gyda pherchennog y cwch a chontractwr morol lleol, helpodd swyddogion yr Harbwr i gael y cwch o'r traeth yn llwyddiannus a'i ddychwelyd i'r Harbwr, lle gwnaethpwyd mân waith trwsio. Mae'r digwyddiad yn dangos rôl weithredol bwysig staff yr Harbwr wrth ymateb i gychod mewn trafferthion, a hoffem ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig am eu cymorth a'u hymrwymiad.

4.9. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Harbwr wedi croesawu nifer cynyddol o gychod sydd angen angorfeydd mwy ar gyfer ymwelwyr. Mae'r Gwasanaeth wedi ymateb drwy fuddsoddi mewn angorfeydd newydd, mwy, ar gyfer ymwelwyr. Mae maint a phwysau cynyddol y blociau angorfeydd, ynghyd â chadwyn drymach a bwiau mwy, yn darparu mwy o ddiogelwch i gychod ymweld sy'n fwy o faint.



5 Cynnal a chadw

5.1. Cafodd cwch patrôl harbwr, GP3, ei symud o'r harbwr ym mis Medi i allu gwneud gwaith trwsio trydanol angenrheidiol iddo, gan gynnwys ailosod pympiau 'sbydu a switshis. Mae'r cwch bellach yn barod i'w ddefnyddio yn ôl yr angen.

5.2. Mae gwaith adweithiol ar hyd y blaendraeth wedi cynnwys tynnu a chladdu carcasau anifeiliaid. Er mwyn cynorthwyo staff i ymateb yn effeithlon, mae'r gwasanaeth yn gofyn i unrhyw un sy'n adrodd am garcasau ar y blaendraeth i roi gwybodaeth manwl-gywir am y lleoliad hefyd, fel What3Words neu Gyfeirnod y Grid Cenedlaethol.

5.3. Mae staff wedi cwblhau hyfforddiant i weithredu'r cerbyd pob tir yn ddiogel. Disgwylir i'r cerbyd gael gwasanaeth i sicrhau ei fod yn dal yn ddibynadwy ac yn gallu gweithredu'n ddiogel.

5.4. Mae arwyddion diogelwch newydd wedi'u gosod yn Fairbourne a Phenrhyn Point i ddarparu gwybodaeth a chanllawiau diogelwch clir a hygyrch i aelodau'r cyhoedd. Bydd yr arwyddion gwell yn helpu i godi ymwybyddiaeth o beryglon lleol ac atgyfnerthu negeseuon diogelwch pwysig i'r rhai sy'n defnyddio'r arfordir a'r ardaloedd cyfagos. Mae

hyn yn rhan o ymrwymiad parhaus y Gwasanaeth i wella diogelwch y cyhoedd a sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael mewn lleoliadau allweddol.

5.5. Gan weithio mewn cydweithrediad â defnyddwyr compownd yr Harbwr, mae staff yr Harbwr yn parhau i wella cyflwr y compownd trwy gael gwared ar eitemau diangen, gwastraff ac offer segur. Mae nifer o lwythi trelar wedi cael eu cludo i Ganolfan Ailgylchu Ffridd Rasus yn Harlech i'w gwaredu, tra bod trelars a deunyddiau sgrap diangen hefyd wedi'u casglu a'u symud.

6 Digwyddiadau

6.a.Gweler isod amserlen y digwyddiadau yn Abermaw eleni.

Gŵyl Abermaw	8 i 9 Mai
Ras 10Km Abermaw	13 Mehefin
Carnifal Abermaw	13 Mehefin
Gŵyl Ddŵr	20 Mehefin
Taith Beiciau Dŵr Bae Colwyn	20 Mehefin
Gŵyl Fwyd	5 Gorffennaf
Sea2Sky	5 Medi
Hwrli Bwrli	12 Medi
Gŵyl Gerdded Abermaw	12 i 21 Medi
Noson Tân Gwyllt a Choelcerth	7 i 8 Tachwedd
Taith Tractors	13 Rhagfyr

6.2. Hoffai'r Gwasanaeth ddiolch i holl drefnwyr y digwyddiadau am gynllunio a chyflwyno digwyddiadau yn ddiogel ac yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn. Mae Abermaw yn parhau i elwa o ystod wych o ddigwyddiadau, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr Harbwr a'r gymuned ehangach. Mae'n bleser gennym adrodd na chafodd unrhyw ddigwyddiadau eu hadrodd mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu'r cynllunio gofalus a'r agwedd gyfrifol a gymerwyd gan y trefnwyr.

7 ARGYMHELLION

7.a.Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad.


CYFANSWM NIFER CWSMERIAID (ANGORFEYDD BLYNYDDOL) AR ANGORFEYDD YN HARBYRAU GWYNEDD
2022/23
2023/24
2024/25
2025/26
UCHELGAIS 2026/27
GWIR 2026/27
IONAWR
CHWEFROR
MAWRTH
EBRILL
MAI
MEHEFIN
GORFFENNAF
AWST
MEDI
HYDREF
TACHWEDD
RHAGFYR
IONAWR
CHWEFROR
MAWRTH
Nifer cwsmeriaid Aberdyfi
Nifer cwsmeriaid Abermaw
Nifer cwsmeriaid Porthmadog


Boddhad Cwsmer Harbyrau
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
2022/23
2023/24
2024/25
2025/26
Uchelgais 2026/27
Gwir 2026/27
Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin
Gorffennaf
Awst
Medi
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr
Ionawr
Chwefror
Mawrth
2026
2027
Da Iawn
Da
Boddhaol
Gwael
Gwael Iawn
Heb Ymateb


Canran Cymhorthion Mordwyo o fewn ardal harbwr ac ar arfordir Cyngor Gwynedd a fu ar gael ar eu safleoedd a rhain yn unol ac archwiliad blynyddol Ty'r Drindod.
2022/23
2023/24
2024/25
2025/26
Uchelgais 2026/27
Gwir 2026/27
Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin
Gorffennaf
Awst
Medi
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr
Ionawr
Chwefror
Mawrth
2026
2027